

Llŷn

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty



Rhif 12 • 2018

www.ahne-llyn-aonb.org

Llygad Llŷn

Cylchlythyr AHNE Llŷn

.....
Yn y rhifyn hŷon
.....


**Crwydro Coed
Elernion**

**Eglwys Newydd
Aberdaron**

Coleg Madryn

**'Yn Angof Ni
Chânt Fod'**

**Rhaglen
Weithgareddau
2018**
.....



Cynnwys

| | |
|-------------------------------------|-------|
| Map o AHNE Llŷn | 3 |
| Gwella Amgylchedd yr AHNE | 4-5 |
| Cystadleuaeth Ffotograffiaeth | 6-7 |
| Crwydro Aberdaron | 8-9 |
| Coed Elernion | 10 |
| Foel Tŵr | 11 |
| Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy | 12-13 |
| 'Yn Angof Ni Chânt Fod' | 14-15 |
| Digwyddiadau 2018..... | 16 |

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o Llygad Llŷn – sef newyddlen flynyddol ar gyfer Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn. Yn y rhifyn hwn, cewch wybodaeth am yr ardal a dynodiad yr AHNE, diweddariad ar brosiectau a gwybodaeth am ddigwyddiadau sydd ar y gweill.

Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)

Mae Llŷn yn un o bump AHNE sydd wedi eu dynodi yng Nghymru, o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Yr ardaloedd eraill yw Penrhyn Gŵyr, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a Dyffryn Gwy. Prif bwrpas y dynodiad yw gwarchod, cynnal a meithrin harddwch naturiol yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys amddiffyn bywyd gwyllt a phlanhigion, yn ogystal â nodweddion daearegol a thirlun yr ardal. Mae'n bwysig hefyd bod nodweddion archeolegol, olion hanesyddol a nodweddion pensaernïol yr ardal yn cael eu gwarchod. Am fwy o wybodaeth am yr holl Ardaloedd o Harddwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ewch i wefan www.landscapesforlife.org.uk

Penrhyn Llŷn

Prif sail dynodi rhan o Llŷn yn AHNE yn ôl yn 1957 oedd yr arfordir amrywiol a diddorol a'r tirlun hardd. Mae oddeutu chwarter y penrhyn, cyfanswm o 15,500 hectar, yn yr ardal ddynodedig. Mae'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond mae hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys Foel Gron a Garn Fadryn. Er mai'r tirlun a'r arfordir yw prif sail yr harddwch naturiol mae llawer o rinweddau eraill yn perthyn i'r ardal yn cynnwys y bywyd gwyllt amrywiol, olion hanesyddol, y môr, y diwylliant unigryw a'r iaith Gymraeg sy'n dal i ffynnu.

Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr lleol, aelodau o Gynghorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Yn y cyfarfodydd, a gynhelir tua tair gwaith y flwyddyn, bydd yr aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol perthnasol, yn cyfrannu at y gwaith o baratoi Cynllun Rheoli a chael gwybod am waith sefydliadau eraill sy'n berthnasol i'r AHNE.

Cynllun Rheoli'r AHNE

Yn ystod 2017 cwblhawyd y gwaith o adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE. Mae'r Cynllun yn cynnwys asesiad o gyflwr yr ardal, dadansoddiad o faterion allweddol a pholisïau a gweithredoedd ar gyfer y dyfodol. Gweler y safle we am fwy o wybodaeth – www.ahne-llyn-aonb.org

Manylion cyswllt

Gwasanaeth AHNE Llŷn
Adran Amgylchedd
Swyddfa Cyngor Gwynedd
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd LL53 5AA

Ffôn 01758 704 155 | 01758 704 176

E-bost ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru

Gwefan www.ahne-llyn-aonb.org



Cyhoeddwyd gan
Wasanaeth AHNE Llŷn



Argraffwyd gan
Wasg Carreg Gwalch,
Llwyndyrus a Llanrwst



Lluniau
Hawlfraint Cyngor Gwynedd
(oni nodir yn wahanol)

Llun clawr
Foel Tŵr gan Gareth Jenkins

Tîm AHNE Llŷn

Mae dau aelod o staff yn gweithio yn y Gwasanaeth:

Bleddyn Prys Jones
Swyddog AHNE Llŷn

Fel Swyddog AHNE Llŷn mae Bleddyn yn arwain gwaith Cyngor Gwynedd ar weithgareddau creiddiol yr AHNE, materion cenedlaethol, a'r gwaith o baratoi a gweithredu'r Cynllun Rheoli.

Elin Wyn Hughes
Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn

Fel Swyddog Prosiectau mae Elin yn arwain ar brosiectau yn deillio o'r Cynllun Rheoli ac yn gweinyddu grant y Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Hefyd, bydd yn trefnu digwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am AHNE Llŷn a chynorthwyo i ddiweddarau'r Cynllun Rheoli.

Gwella Amgylchedd yr AHNE

Odyn Galch, Porth Ysgaden

Ar ddechrau'r flwyddyn, trefnodd y Gwasanaeth AHNE i elusen Cadwch Gymru'n Daclus ymgymryd â phrosiect clirio ym Mhorth Ysgaden, ar arfordir gogleddol Llŷn.

Yn y gorffennol, roedd Porth Ysgaden yn un o borthladdoedd bychain prysur Llŷn ac yn safle allweddol i fewnforio nwyddau hanfodol fel glo, halen a chalch. Oddi yma hefyd yr allforiwyd cynnyrch o'r ffermydd.

Saif olion diddorol o'r cyfnod hwnnw o hyd, megis talcen tŷ oedd yn gartref i'r swyddog tollau.

Saif hefyd odyn galch, a dyma'r adeilad diddorol oedd dan sylw yn y prosiect hwn. Credir i'r odyn bresennol ddyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif ond dengys cofnodion fod odyn yn weithredol yma yn y flwyddyn 1754. Mae'r strwythur wedi ei restru gan Cadw (Gradd II) oherwydd ei faint a'i ddyluniad anarferol.



Dros y blynyddoedd, cafodd sbwriel ei daflu i'r odyn drwy'r agoriad yn y pen uchaf. Roedd hi'n drueni gweld adeilad hanesyddol sydd mewn safle amlwg ar Lwybr yr Arfordir yn cael ei amharchu yn y fath fodd.

Bu Lee Oliver a Gruff Jones yn clirio'r odyn a'r hen ffynnon islaw hefyd ac rydym fel Gwasanaeth yn ddiolchgar o'u gwaith ac yn falch o weld gwelliant ar y safle.

Diolchwn hefyd i Mr Wynne-Finch, Stâd Cefnamwlch am ei ganiatâd a'i gydweithrediad.



Tanddaearu Gwifrau Trydan

Yn 2006 lansiwyd cynllun gan OFGEM* oedd yn rhoi lwfans i'r cwmnïau cyflenwi trydan a'r Grid Cenedlaethol i danddaearu gwifrau a chyfarpar arall mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Ers dechrau'r cynllun, mae llawer o gynlluniau wedi eu gwireddu trwy Brydain ac mae tirlun y Parciau a'r AHNE wedi elwa yn sylweddol o'r cynllun.

Y cynllun diweddaraf i'w gwblhau yn AHNE Llŷn oedd yr un ar Drwyn Cilan. Yn ogystal â bod yn yr AHNE mae Trwyn Cilan yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn dir comin gyda Mynediad Agored. Bu i'r Gwasanaeth AHNE adnabod fod y gwifrau yn amlwg ar y tirwedd ac yn ymwithiol. Trwy gydweithrediad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd yn berchen y tir, gwiredwyd y cynllun tanddaearu gan SP Manweb yn 2017 gan wella edrychiad y safle a'r golygfeydd o amgylch. Mae SP Manweb hefyd wedi bod yn gweithio ar gynllun i danddaearu gwifrau ar Y Foel Gron, Mynytho. Eto mae hon yn safle amlwg o dir comin



gyda golygfeydd gwych i bob cyfeiriad a bydd tanddaearu yn creu gwelliant gweledol amlwg. Anelir i gwblhau'r cynllun hwn yn ystod 2018 a hefyd i wireddu cynlluniau tanddaearu llai yn Sarn Bach a ger Dwyros, Aberdaron.

* OFGEM: Corff llywodraethol sy'n goruchwyllo marchnadoedd nwy a thrydan.

Carreg y Defaid

Bu gwaith clirio hefyd yn digwydd ar safle pwysig iawn i AHNE Llŷn. Ar arfordir deheuol y penrhyn, mae ffin yr AHNE yn cychwyn yng Ngharreg y Defaid ger Llanbedrog - safle poblogaidd arall ar Lwybr yr Arfordir. Nid ymhell o'r traeth ac yn ôl am y brif lôn ceir coedlan fechan, a than yn ddiweddar roedd llawer iawn o sbwriel yn cael ei waredu yma yn anghyfreithlon.

Roedd yma sbwriel o bob math, yn amrywio o wastraff tŷ a gwastraff masnachol i nwyddau trydanol mawr. Arweiniwyd prosiect gan dîm Trefi Taclus a Gorfodaeth Stryd, Cyngor Gwynedd i glirio'r safle a dymunwn ddiolch iddynt hwythau am eu gwaith a'u cyfraniad at wella amgylchedd yr AHNE.

Cystadleuaeth Ffotograffiaeth

Thema ein cystadleuaeth ffotograffiaeth ddiweddar oedd Llŷn i Mi.

1af



Llongyfarchiadau
i'r gweddill yn
ogystal:

CYDRADD
3ydd



Cerrig ar draeth Porth y Nant
gan Eve Goodman

Clochdar y Cerrig ym
Mhorth Neigwl
gan John Delap



Llongyfarchiadau
i Elen Griffith am
ddod i'r brig gyda
llun o'i merch
Nanw (uchod) ym
Mhorth Colmon.
Y wobr oedd taith
cwch i Ynys Enlli.

2il





Trefor gan
Phil Pownall

Porth
Neigwl
gan
Dawn Jones



Cynaeafu
gan Mared Jones

Cymeradwyaeth
Uchel



Diolch i bawb am
gystadlu, ac i
Gareth Jenkins am
gynorthwyo gyda'r
beirniadu.

Porth Neigwl
gan John Delap



Crwydro Aberdaron

Cynhaliodd y Gwasanaeth AHNE dair taith gerdded yn ystod 2017. Aeth un o amgylch Moel Penllechog yn ardal Llanaelhaearn a chafwyd blas ar hanes chwareli ithfaen yr ardal. Aethpwyd ar gylchdaith hefyd yn ardal Tudweiliog gan ymweld â'r Eglwys a sawl lleoliad hardd fel Porth Ysgaden a Phorth Ysglaig.

Dyma fanylion y daith yn nghyffiniau Aberdaron...
....

Y man cychwyn yw maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ym Mhorth Meudwy a dilyn y lôn drol i lawr i'r traeth.

Dyma borthladd difyr, digon prysur gyda physgotwyr a cherddwyr Llwybr yr Arfordir yn mynd a dod. Yma hefyd y mae mordeithiau yn cychwyn draw i Ynys Enlli fel yn oes y pererinion gynt. Mae'r enw "Meudwy" yn gysylltiedig gyda'r pererinion hynny mae'n debyg. Diddorol yw nodi hefyd fod sawl ffynhonnell yn awgrymu fod enw ar ddau annedd gerllaw (Bodermid Isaf a Bodermid Uchaf) yn tarddu o'r enw Saesneg "hermit".

Naill ochor i Borth Meudwy mae grisiau serth yn ymuno â Llwybr yr Arfordir – un ochr yn arwain i gyfeiriad Aberdaron a'r llall i gyfeiriad Pen y Cil. Dilynwch y llwybr i gyfeiriad Pen y Cil ac Enlli.

Cyn hir byddwch uwchlaw olion harbwr ym Mhorth y Pistyll (neu Trwyn Dwmi ar lafar). Dechreuwyd cloddio'r graig ithfaen yma yn 1907. Mae'n debyg fod hwn yn safle anodd iawn i'w gyrraedd yr adeg honno – ac arferai'r gweithiwy'r ddefnyddio rhaffau ac ysgolion i'w gyrraedd. Daeth y gwaith yno i ben ar ddiwedd yr 1930au.

Yn wir, mae enwau hudolus a diddorol ar wahanol nodweddion o amgylch arfordir Llŷn ac mae'r rhan hwn o'r Penrhyn yn frith o enwau tlws gydag ambell chwedl ddifyr yn darddiad iddynt, megis Porth y Gloch. Yn ôl llên gwerin, yma collwyd cloch o abaty'r Bala i waelod y môr wrth gael ei chludo i ddiogelwch Enlli, yn y cyfnod pan oedd y mynachlogydd yn cael eu dinistrio. Mae dywediad lleol o hyd yn cymharu rhywbeth sydd yn sownd, i gloch y Bala.

Mae Ogof Ddeuddrws gerllaw hefyd, ble gellir hwylio drwy un fynedfa ac allan drwy'r llall. Ogof Morgan yw yn enw arall – sydd o bosib yn gysylltiedig gydag un o smyglwyr amlwg yr ardal hon yn ystod yr 16eg Ganrif.

Toc, byddwch yn cyrraedd Pen y Cil - rhostir uwchlaw gelltydd serth. Oddi yma mae Ynys Enlli i'w gweld yn ei gogoniant gyda'r swnt peryglus islaw ble ceir hanes amryw o longdrylliadau megis cwch Enlli – "Y Supply" nôl yn Nhachwedd 1822. Dyma'r gwch oedd yn cludo holl anghenion goleudy'r ynys. Boddwyd chwech o bobl yn cynnwys y capten a'i



Tudweiliog



Penllechog

ferch. Ceir galarnad yn adrodd yr hanes brawychus gan y bardd Ieuan Lleyan.

Ymlaen dros fynydd Bychestyn byddwch yn mynd heibio'r Parwyd, sef craig hynod o serth a gyfeirir ati mewn stori arswyd leol. Cyn hir, byddwch yn cyrraedd y lôn a thyddyn o'r enw Bryn Canaid. Yma trigai gwraig o'r enw Ann Griffith ac mae hi dal yn cael ei chofio heddiw fel "Meddyges Bryn Canaid". Ceir cofnod o'i chladdu yn nghofrestr Eglwys Hywyn Sant, Aberdaron ar Hydref 25ain


1821, yn 87 mlwydd oed. Caiff ei chofio am ei gallu rhyfeddol i drin gwahanol afiechydon ac anhwylderau gan ddefnyddio ond yr adnoddau naturiol o'i chwmpas megis y planhigion gwylltion, gwymon, dŵr o wahanol fffynhonnau, gwichiaid – a gelod! Cadwai ei chynhwysion yn ei “meddygfa” – sef twll wedi ei naddu mewn craig fawr o flaen y tŷ gyda dôr haearn arni.

O Fryn Canaid, mae'r lôn yn arwain heibio Pwll y Cyw, Bodermid Isaf a Thir Glyn ac yna ceir troead lawr i'r dde yn arwain drachefn i'r man cychwyn.

Cylchdaith ddymunol iawn yw hon, oddeutu dwy awr o hyd. Mae Llwybr yr Arfordir yn y cyffiniau hyn mewn cyflwr da ond mae manau eithaf cul a chreigiog felly dylid bod yn ofalus a chadw'ch pwyll.

Yn gynharach eleni, bu Bethan Wyn Jones, botanegydd sy'n llais cyfarwydd ar raglenni natur BBC Radio Cymru, yn cynnal sgwrs yn Neuadd Goffa Sarn Mellteyrn am hanes Ann Griffith ar ran y Gwasanaeth AHNE. Cafwyd noson hwyliog a difyr iawn wrth glywed pa gynhwysion yr arferai hi eu defnyddio at wahanol gyflyrau neu anhwylderau megis y fogfa (neu asthma), llosg eira, camdreuliad a chric y cymalau. Ceir rhagor o wybodaeth amdani mewn cyfrol o'r enw “Lloffa yn Llŷn” gan un o'i disgynyddion, Emyr Wyn Jones (Emyr Feddyg).

Porth Meudwy



Coed Elernion, Trefor

Coedlan ddelfrydol i fynd am dro, yw Coed Elernion yn Nhrefor, sydd ym mherchnogaeth Coed Cadw.

Mae'r goedlan hon, sydd â rhannau ohoni yn goedlan hynafol, wedi ei dynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA neu SSSI) ac felly yn cael ei gwarchod yn gyfreithiol o dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Coetir gwlyb sydd yma yn bennaf, a mathau o gynefinoedd coed derw. Ymysg y bywyd gwylt a'r planhigion arbennig mae moch daear, ystlumod a chlychau'r gog.

Dyma le hwylus, yn enwedig i deuluoedd a phlant. Ceir llwybrau mewn cyflwr da drwy rannau o'r goedwig i'ch arwain ar gylchdaith o'r fynedfa ac yn ôl. Mae llwybrau pren dros y rhannau gwlypaf a phontydd dros y brif afon (Afon Tal). Yng nghanol y safle, mae caeau agored gyda maing os am seibiant i fwynhau'r tawelwch a'r bywyd gwylt arbennig.

Noder mai ond un fynedfa sydd i'r goedwig. Mae'r fynedfa honno i'w chael ar y ffordd gyntaf i lawr am Drefor o gyfeiriad Pwllheli (yr ail lôn i lawr i Drefor os ydych yn dod o gyfeiriad Caernarfon.) Gwelwch fod adwy fechan ar ochr chwith y lôn tua 150 metr o'r gyffordd. Nid oes safle parcio ffurfiol, ond mae trafniadaeth gyhoeddus yn mynd heibio yn rheolaidd.



Ar wefan Coed Cadw

(www.woodlandtrust.org.uk), cewch lawer o wybodaeth ddefnyddiol a diddorol am Goed Elernion. Cewch yn ogystal wybodaeth am goedlannau eraill drwy Brydain y gellir ymweld â nhw, a blas ar sut yr eir ati i'w gwarchod a gofalu amdanynt.

Enw digon diddorol yw Elernion, bellach yn enw ar annedd-dai yn nes i lawr tuag at bentref Trefor. Roedd Elernion yn drefgordd ei hun ar un cyfnod, ac mae cofnod o hyn yn dyddio nôl i 1352. Mae Glenda Carr yn ei llyfr 'Hen Enwau o Arfon, Llŷn ac Eifionydd' yn nodi cyswllt posib rhwng yr enw ag Aelhaearn Sant ei hun.



Foel Tŵr, Mynytho



Dyma daith wych i gael golygfeydd panoramig o wlad Llŷn a thu hwnt. Saif Foel Tŵr nepell o bentref Mynytho ac mae'n bur hawdd ei adnabod o gryn bellter oherwydd adfail felin wynt sydd ar y copa. Dyma nodwedd hanesyddol ddiddorol, sydd wedi ei rhestru gan Cadw (Gradd II). Ni chafodd hir oes yn ôl y sôn oherwydd gwyntoedd croes ac iddi gael ei tharo droeon gan fellt.

Mae lle parcio cyfyngedig wrth droed Foel Tŵr, ond mae modd parcio a cherdded yno o'r pentref ei hun. O gyfeiriad Ysgol Foel Gron, ewch ymlaen heibio'r cae chwarae ac ar hyd y lôn sydd yn arwain i gyfeiriad Nanhoron a Rhydyclafdy. Byddwch yn pasio tai gydag enwau digon difyr fel Yr Aipht a China – sydd yn sicr o fod yn gysylltiedig â morwyr yr ardal.

Ceir sawl enw yn y rhan hon o Llŷn sydd yn gysylltiedig â rhannau eraill o'r byd ac sydd yn ddrych diddorol o'r gorffennol. Mae Cornwall yn enw lleol arall, sydd yn gysylltiedig mae'n debyg â'r gwaith plwm a fu yn Llanengan pan ymfudodd amryw o Gernyw i weithio yno.

Toc wedi i chi basio China, cymerwch y troad cyntaf fyny i'r dde a bydd y lôn fechan hon yn eich arwain i'r fynedfa, sydd cael ei ddynodi gan arwydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – “Foel Felin Wynt”.

Mae'r llwybr i fyny yn eithaf serth, ond yn fyr. Bydd angen cymryd gofal gan fod y llwybr hefyd yn anwastad ac ychydig yn garegog mewn manau.

Mae sawl lleoliad difyr arall i ymweld yn y cyffiniau. Yn ôl yn y pentref ei hun, gallwch grwydro Foel Gron sydd yr un mor drawiadol o ran golygfeydd. Mae Foel Gron wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail ei daeareg yn ogystal â bod yno fywyd gwyllt o bwys ac o dan fygythiad. Mae hefyd yn Dir Comin. Ceir llwybr yn arwain heibio'r Ysgol.

Ceir sawl ffynnon hanesyddol yn y plwyf. I lawr heibio Capel Horeb mae Ffynnon Fyw. Mae'n ffynnon drawiadol o ran ei hadeiladwaith, gyda dau ran iddi – un ble'r arferid ymolchi a'r llall ar gyfer yfed. Mae'n debyg bod ei dŵr yn llesol i anhwylderau'r llygaid yn enwedig. Mae'r Gwasanaeth AHNE wedi arwain sawl prosiect clirio ar y safle hwn dros y blynyddoedd.

I lawr rhwng pentref Mynytho a Nanhoron, mae lôn drol yn arwain at y Capel Newydd. Mae'n bosib mai hwn yw'r capel anghydfurfiol hynaf sydd wedi goroesi yng ngogledd Cymru ac mae'n dyddio yn ôl i ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Eto, mae'r Gwasanaeth AHNE yn cynnal prosiect ar y safle o dro i dro i glirio'r gordyfiant a gwella'r llwybr i lawr ato. Mae'r Capel wedi ei restru gan Cadw (Gradd I), sef y statws a roir i'r adeiladau/strwythurau mwyaf arbennig.

(Diolch i Gareth Jenkins am y llun o Foel Tŵr)

Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Mae'r Gronfa hon yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau sy'n gwneud lles i'r amgylchedd, yr economi, y diwylliant neu'r gymuned mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Mae pwyslais ar brosiectau arloesol a rhai sy'n datblygu a phrofi ffyrdd newydd o fyw yn fwy cynaliadwy. Gellir cyfrannu hyd at 75% o'r costau.

Dyma flas ar rai prosiectau a gefnogwyd yn ystod y misoedd diwethaf yma yn Llŷn....

Eglwys Beuno, Clynnog Fawr

Saif Eglwys Beuno Sant yng nghanol pentref Clynnog Fawr ar arfordir gogleddol Llŷn. Dyma leoliad hanesyddol bwysig ar Lwybr y Pererinion.

Bu Cyngor Cymuned Clynnog Fawr yn arwain prosiect i wella safle'r Eglwys dros y misoedd diwethaf yn dilyn difrod a wnaethpwyd pan ddymchwelodd rhan o'r wal sydd yn amgylchynu'r fynwent.

Yn ogystal â nawdd o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy, cyfrannwyd arian hefyd gan y Cyngor Cymuned ei hun a Chyngor Gwynedd.



Balchder Bro

Dyma brosiect dan arweiniad Ysgol Llanbedrog, oedd yn cynnal cyfres o weithgareddau difyr i ddatblygu gwerthfawrogiad ymysg y disgyblion o'u milltir sgwâr a dathlu'r holl nodweddion arbennig sydd i'w cael yma.

Croesawyd Catrin Williams a Tess Urbanska i'r Ysgol i gynnal gweithdai celf hwyliog a bu Myrddin ap Dafydd yn cynnal gweithdy llenyddiaeth gan roi blas ar ystyron enwau lleoedd ac addysgu am chwedlau a thraddodiadau cysylltiedig.



Yn ogystal, bu'r plant yn brysur yn plannu bylbiau Cennin Pedr mewn cafau o amgylch y pentref.



Eglwys Sant Pedr, Pwllheli

Cefnogwyd prosiect i gynnal gwelliannau oddi fewn Eglwys Sant Pedr ym Mhwllheli. Dyma adeilad trawiadol yng nghanol y dref, sydd wedi ei restru gan Cadw (Gradd II). Yn ogystal â bod yn addoldy, mae'r Eglwys yn gartref i nifer o wasanaethau pwysig megis Banc Bwyd Pwllheli.

Bob bore Mercher hefyd, cynhelir Marchnad Wledig gan ddarparu cynnyrch lleol ffres a gwaith crefft ac ati – dan ofal gweithwyr Popty Prysur, Canolfan y Gwystl.

Mae Canolfan y Gwystl yn ganolfan ddydd ar gyfer oedolion gydag anawsterau dysgu ac mae'r Farchnad heb os yn gyfle i'r defnyddwyr fod yn rhan o gymdeithas ac ymarfer sgiliau gwerthfawr.

Os am wybod mwy am yr Eglwys a'r holl wasanaethau a geir yno, edrychwch ar y wefan hon – www.facebook.com/BroEnlli

Coleg Madryn –

Ysgol Amaethyddol Gyntaf Cymru 1913-1952

Yn ystod mis Tachwedd 2017, cynhaliwyd aduniad Cymdeithas Cyn-Fyfyrrwyr Coleg Madryn a Glynllifon yng Ngwesty Nanhoron, Nefyn. Ar y noson, cafwyd cyfle i lansio cyfrol go arbennig – *Coleg Madryn, Ysgol Amaethyddol Gyntaf Cymru 1913-1952*.

Mae'r llyfryn hwn gan John Dilwyn Williams a Mair Jones Parry yn ffynhonnell wybodaeth werthfawr iawn am sefydliad pwysig ac allweddol yn ei ddydd. Ceir ynddo olwg ddifyr ar fywyd yn y coleg o'r blynyddoedd cynnar hynny ar safle hanesyddol plasty Madryn, hyd at 1952 – pan symudodd i safle newydd yng Nglynllifon. Mae'r gyfrol yn cynnwys hanes sefydlu'r ysgol ac yn gasgliad o atgofion rhai o'r cyn-fyfyrrwyr gyda chyfres o luniau.

Yn ogystal â nawdd y Gronfa Datblygu Cynaliadwy, roedd sawl asiantaeth a mudiad arall wedi cyfrannu at y gwaith. Cyhoeddwyd y llyfryn gan Wasg Carreg Gwalch ac mae ar werth mewn siopau lleol.



Mair Jones Parry, Elin Wyn Hughes (AHNE Llŷn) a John Dilwyn Williams
Llun gan Dewi Wyn

Cae Chwarae Edern

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ail-ddatblygu'r cae chwarae yn Edern. Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r parc wedi bod ar gau ond mae criw gweithgar o wirfoddolwyr wedi bod yn casglu arian i'w adfywio a'i ddatblygu yn llecyn diogel a hwylus i deuluoedd yr ardal. Bu nawdd o'r Gronfa yn gymorth i dirlunio o'i amgylch, plannu coed a chreu llwybrau.

Eglwys Newydd, Aberdaron

Mae'r Eglwys Newydd yn Aberdaron wedi ei lleoli nepell o ganol y pentref gerllaw fferm Bodernabwy.

Dyma adeilad diddorol a thrawiadol a godwyd yn 1841 yn sgil penderfyniad y pentrefwyr i adael yr eglwys wreiddiol sydd uwchlaw'r traeth. Mae'r eglwys honno wedi ei chysegro i Hywyn Sant ac yn dyddio'n ôl i'r bumed ganrif - mae'n debyg ei bod ar y pryd mewn cyflwr gwael ac mewn perygl o gael ei cholli i'r môr.

Ar ddechrau'r flwyddyn, cefnogwyd prosiect gan Gyfeillion Eglwys Newydd i gynnal gwelliannau yn yr

adeilad a bu seiri lleol yn addasu a lledu'r mynediad ac hefyd yn addasu'r seddi. Bydd hyn yn cynnal yr adeilad i'r dyfodol ac yn sicrhau ei bod

yn addas ar gyfer gwahanol wasanaethau a chyngherddau. Cewch hanes diddorol yr Eglwys a'r newyddion diweddaraf amdani yma:-

www.eglwys-newydd-aberdaron.org.uk



Prosiect Meillionydd

Dros haf 2017, braf oedd cael croesawu yn ôl i Llŷn, staff a gwirfoddolwyr o Brifysgol Bangor i gynnal eu prosiect archeolegol ar safle Meillionydd, Y Rhiw.

Bu nawdd o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn gymorth i gynnal diwrnodau agored ar y safle, a roddodd gyfle i'r cyhoedd a disgyblion ysgolion ddysgu mwy am fywyd yn un o gymunedau cynnar Llŷn.



Yn y llyniau hyn, gwelir plant Ysgol Pont y Gof yn cael blas ar y darganfyddiadau yng nghwmni Rhys Mwyn a Llŷr Titus.

Ceir manylion pellach am y prosiect, y darganfyddiadau dros y blynyddoedd a'r newyddion diweddaraf ar y wefan hon – <http://meillionydd.bangor.ac.uk>


'Yn Angof Ni Chânt Fod'

RHYFEL BYD CYNTAF YN LLŷN (1914-18)

Yn ddiweddar bu Elfed Gruffydd yn gweithio ar brosiect ymchwil ar ran y Gwasanaeth AHNE yn edrych ar effaith y Rhyfeloedd Byd ar Benrhyn Llŷn.

Mae wedi cyhoeddi nifer o erthyglau yn Llanw Llŷn ar y pwnc ac hefyd wedi rhoi sgwrsiau yn lleol. Yma mae crynodeb o rai o ffeithiau a hanesion lleol:

- Collodd Llŷn dros 400 o hogia', talp o genhedlaeth gyfan – ac fe'u coffeir yng Nghofeb Gogledd Cymru ym Mangor ac ar gofebion ledled y fro.
- Fis wedi cyhoeddi'r rhyfel cynhaliwyd cyfarfod yn Nhudweiliog a gwirfoddolodd dau ddwsin i ymuno â'r fyddin.
- Bu'r Parch. John Williams, Brynsiencyn a gwraig David Lloyd George yn annerch torf ym Mhwllheli (dim ond pump ymunodd).
- Daeth 1,300 o filwyr i Bwllheli a'r ardal i ymarfer yn gynnar yn 1915. Mynegwyd yn y wasg y dylid 'rhwystro i ferched y dref gyfathrachu â'r milwyr ... rhag iddynt syrthio i demtasiynau'.
- Cafodd ffoaduriaid o Wlad Belg groeso. Cynhaliwyd cyngerdd i godi arian i'w cefnogi yn Abersoch ac yn fuan roedd y Belgiaid eu hunain yn cyflwyno eitemau. Wrth ymadael â Llŷn dywedent nad âi caredigrwydd y trigolion lleol byth o'u cof.
- Roedd dros 300 wedi ymuno fel gwirfoddolwyr ym Mataliwn "Lleyn ac Eifionydd", nododd Cynrol iddo ymweld â 53 o gwmnïau ond nad oedd yr un wedi gwneud 'gwaith mor berffaith â Chwmni Pwllheli'.
- Caniatwyd esgusodiad i chweched mab Ifor Davies, Glandulyn, Abersoch gan y tribiwnlys am fod pedwar o'i feibion yn y fyddin ac un yn y llynges.
- Collodd Thomas Salisbury, cipar ar stad Madryn a'i wraig dri mab yn y rhyfel, ond er hyn bu'n rhaid i'w pedwerydd mab fynd i frwydro.
- Roedd Prydain yn mewnfario 60% o'i bwyd ac roedd bygythiad i'r llongau masnach oedd yn cyflenwi. Yr apêl oedd 'Cynhyrchwch!' ond collwyd gweision o'r tir fel y daeth gorfodaeth a chai'r ffermwyr hi'n anodd cynhyrchu.
- Âi bwyd yn ddrud i wraig y tŷ a thua diwedd y rhyfel dogrnwyd cig, menyng a chaws ond derbyniwyd cyflenwad o flawd a chaws o Ganada.
- Roedd gwaith y cwnhingwyr yn hanfodol i atal cwningod fynd yn bla a difetha'r cnydau; hefyd roedd y cig yn ffynhonnell bwyd pwysig.



Aberdaron



Dinas



Sarn Mellteyrn



Pwllheli

- Sefydlwyd Coleg Amaethyddol Madryn yn 1913 a bu yn fodd i gyflwyno dulliau newydd a mwy effeithiol o amaethu yn ystod cyfnod y rhyfel.
- Bu ymgyrch i drin y tir a thyfu cnydau, e.e. traenio tir o gwmpas afon Soch ac ildwyd tir o gwrs golff Pwllheli.
- Closiodd y gymdeithas leol a daeth bri ar gymdeithasau diwylliannol. Trefnid cyngherddau a gweithgareddau codi arian i gefnogi milwyr lleol.
- Sefydlwyd elusennau a threfnwyd dyddiau gwerthu fflagiau er budd Y Groes Goch a'r 'Russian Flag Day'.
- Byddai plant ysgol yn casglu wyau a chaent eu hanfon fesul dwsinau i'r ysbytai.
- Deuai morwyr i'r lan yn dilyn llongddrylliadau. Un tro glaniodd 14 yn Aberdaron a chawsant eu lletya, eu bwydo a'u dilladu cyn eu hanfon i Bwllheli i ddal y trê.
- Roedd galw am fanganis yn y diwydiant arfau a gwelwyd llwyddiant dros dro ym mwynefydd ardal y Rhiw.
- Defnyddiai David Lloyd George bob cyfle cyhoeddus a gâi i hyrwyddo'r rhyfel. Derbyniodd ei anerchiad blynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1915 gefnogaeth frwd y dorf o 9,000.
- Yn gynnar yn 1919 bu i Griffith, Hirwaun House, Pwllheli gynnig llwy arian gydag arysgrifen arni i unrhyw blentyn a anwyd rhwng 5 ac 11 y bore ar 11 Tachwedd 1918.



Nefyn



Edern

Gweithgareddau

2018

Dyma restr o weithgareddau AHNE Llŷn eleni, sy'n gyfle i fwynhau a dathlu'r cyfoeth o'n cwmpas a chymdeithasu.

gweithgareddau 2018

Sgyrsiau Hanes Lleol

Smyglwyr Llŷn gyda Twm Elias

**Nos Wener, Mai 18fed –
Neuadd Goffa Sarn Mellteyrn, 7:30 o'r gloch**

Mae Llŷn, gyda'i thraethau anghysbell a'i chilfachau dirgel wedi bod yn hafan i smyglwyr dros y canrifoedd.

Bydd y sgwrs hon yn rhoi blas i ni ar y cyfnodau cythryblus hynny, gan gyflwyno hanesion difyr a chymeriadau lliwgar.

Hanes Stâd Bodfel gyda John Dilwyn Williams

**Nos Fercher, Mehefin 6ed –
Canolfan Gymunedol Llannor, 7:30 o'r gloch**

Bydd y sgwrs hon yng nghwmni hanesydd lleol yn mynd ar drywydd yn o hen stadau Llŷn. Mae'r ardal yn frith o blastai a stadau sydd gyda chanrifoedd o hanes hynod ddiddorol.

Mae hanes plasty Bodfel ym mhlwyf Llannor yn dyddio'n ôl i'r 16eg Ganrif, a bu'n gartref i deulu nodedig o noddwyr beirdd.

Enwau Lleoedd Llŷn gyda Twm Elias

**Nos Wener, Mehefin 15fed –
Neuadd Goffa Sarn Mellteyrn, 7:30 o'r gloch**

Mae enwau Llŷn ac Eryri yn cyfrannu'n fawr at gymeriad yr ardal. Maent i gyd yn enwau Cymraeg, ac yn aml mae ganddynt gysylltiadau hanesyddol neu chwedl ddifyr yn darddiad iddynt.

Chwith yw gweld sawl enghraifft yn lleol o enwau ar dai a lleoliadau yn cael eu newid i enwau dieithr. Dyletswydd sydd arnom i gadw'r enwau brodorol hyn yn fyw, eu gwerthfawrogi ac atal darnau o'n hanes rhag mynd yn angof. Galwch draw am banded a sgwrs gyda chwmni difyr!

Mae mynediad am ddim i'r sgyrsiau hyn a bydd paned ar gael ynghyd â darpariaeth cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg.

Teithiau Tywys

Dydd Sul, Medi 9fed – Coed Cwm Gwared


Twm Elias fydd yn ein tywys drwy'r goedwig arbennig hon ar daith natur, rhwng mynyddoedd Bwlch Mawr a Gyrn Goch. Dyma safle sydd wedi ei ddynodi yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar sail y bywyd gwyllt sydd yno. Bydd y gylchdaith yn cychwyn a gorffen yng Ngyrn Goch.

Dydd Sul, Medi 16eg – Plas yn Rhiw

Bydd Cynan Jones o'r Ardd Fadarch (www.snowdoniamushrooms.co.uk) yn ymuno â ni drwy goedwigoedd Plas yn Rhiw. Cawn fwynhau'r cyfoeth o fywyd gwyllt yno a bydd cyfle i edrych yn benodol a dysgu am wahanol ffwng yng nghwmni arbenigwr.

Dydd Sul, Medi 23ain – Nefyn

Cylchdaith yng nghwmni Meinir Pierce Jones, brodor o'r dref ac sy'n Reolwr Amgueddfa Forwrol Llŷn. Byddwn yn cychwyn a gorffen yn yr Amgueddfa. Mae gan Nefyn hanes cyfoethog gyda'r diwydiant pysgota penwaig ac adeiladu llongau fu'n ffynnu am ganrifoedd. Cawn gyfle hefyd i glywed sawl stori ddiddorol megis ymweliad brenin Lloegr, Edward I yn 1283.



Mae angen cysylltu gyda ni o flaen llaw os am ymuno ar y teithiau tywys er mwyn cofrestru a derbyn rhagor o wybodaeth.

Ffôn 01758 704 176

E-bost ahnellynaonb@gwynedd.llyw.cymru